

Datganiad Ysgrifenedig

Y Cytundeb Cydweithio

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru wedi llofnodi Cytundeb Cydweithio yn gynharach heddiw. Yn dilyn y cyhoeddiad gwreiddiol yr wythnos diwethaf, rwyf wedi gohebu â'r Prif Weinidog a gofynnais i'r union fanylion ynghylch gweithrediad y Cytundeb gael eu cyhoeddi, a bydd yr Aelodau wedi gweld bod y mecanwaith a'r cod ymddygiad ar gyfer Aelodau Dynodedig Plaid Cymru wedi eu cyhoeddi y bore yma.

Mae'r Cytundeb yn gwneud trefniadau sy'n rhai newydd ac sy'n codi cwestiynau ynghylch gweithrediad Busnes y Senedd. Gan hynny, rwyf wedi cymryd cyngor cyfreithiol ynghylch effaith y Cytundeb ar statws Plaid Cymru fel grŵp, ac yn benodol p'un a yw'n grŵp sydd â rôl weithredol.

Nodir y diffiniad o grŵp sydd â rôl weithredol yn Adran 25(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae adran 25(8) yn datgan:

“For the purposes of this Act a political group is a political group with an executive role if the First Minister or one or more of the Welsh Ministers appointed under section 48 belong to it.”

Felly, cyn belled ag y mae Deddf Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn, nid yw'r cyfeiriadau at “rôl weithredol” ond yn berthnasol i grŵp plaid sydd wedi ymuno â'r llywodraeth yn yr ystyr o gael o leiaf un Aelod wedi'i benodi'n Weinidog Cymru neu'n Brif Weinidog. O dan delerau'r Cytundeb, ni fydd gan Plaid Cymru unrhyw rolau gweinidogol ac felly fy marn ar hyn o bryd yw nad yw'n grŵp sydd â rôl weithredol.

Mae diffiniad Deddf Llywodraeth Cymru o “rôl weithredol” hefyd yn gymwys i'r ffordd y defnyddir y term yn Rheolau Sefydlog y Senedd.



Er y sefyllfa gyfreithiol, mae manylion y Cytundeb yn arwain at ystyriaethau o ran gweithredu busnes y Senedd a'n confensiynau presennol, sy'n seiliedig ar y ffiniau rhwng aelodau'r Llywodraeth ac aelodau anllywodraethol (neu'r wrthblaid).

Yn benodol, mae angen ystyried yn ofalus y mater o gyflwyno rôl newydd i Aelodau Dynodedig. Rwyf wedi gofyn i'r Prif Weinidog gadarnhau nifer, cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Aelodau Dynodedig a chyhoeddi enwau a phortffolios yr Aelodau hynny. Unwaith y bydd rhagor o eglurder yn hyn o beth, byddaf yn ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes ac yn gwneud datganiad pellach ar sut y mae'r Cytundeb yn debygol o effeithio ar weithrediad cyfarfodydd llawn a phwyllgorau.

Er bod y Cytundeb yn cyflwyno trefniant newydd inni ar gyfer y Llywodraeth, serch hynny, dylem fel Senedd ystyried y cyfleoedd y mae hyn yn ei roi inni fel democratiaeth sy'n datblygu.

Fy rôl i fel Llywydd yw sicrhau ein bod yn cynnal egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd, a sicrhau bod trefniant busnes y Senedd yn hwyluso gwaith craffu ar y Llywodraeth. Mater i'r Senedd, fodd bynnag, yw penderfynu ar ei ffyrdd ei hun o weithio, ac rwy'n croesawu awgrymiadau gan yr holl Aelodau ynghylch sut y gallem addasu ein dull o gynnal busnes anllywodraethol wrth inni weld y Cytundeb yn gweithredu'n ymarferol.

Elin Jones AS/MS
Llywydd

1 Rhagfyr 2021